# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)32-10

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 1 Rhagfyr 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:**Ystafell Bwyllgora 4, Ty Hywel

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Rosemary Butler, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)31-10 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2010**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**"Cytunwyd y tu allan i'r cyfarfod pwyllgor ar 30 Tachwedd 2010 ar yr holl eitemau busnes i ddod, ac eithrio 3.7."**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)31-10(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai Dirprwy Lywydd Dros Dro yn cael ei ethol ar ddechrau pob Cyfarfod Llawn yn absenoldeb y Llywydd.

3.2. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i atal y Rheolau Sefydlog ar 30 Tachwedd er mwyn gallu trafod cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau (y Ceidwadwyr).

3.3. Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai Darren Millar yn gohirio ei ddadl fer ar ddydd Mercher – NDM4603 Bryniau Clwyd – Trysor Cenedlaethol.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn 5.00pm ar ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.5. Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 30 Tachwedd a 1 Rhagfyr 2010.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)31-10(p2)**

3.6 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)31-10(p3)**

3.7 Gan fod amserlen busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf wedi'i chytuno ar 30 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i atal y Rheolau Sefydlog ar ddydd Mawrth, 7 Rhagfyr er mwyn gallu trafod cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau (y Ceidwadwyr).

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth

### 4. Deddfwriaeth

**(i) Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)**

**Papur gan y Gweinidog ar Fesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) – BC(3)32-10(p4);**

**amserlen ddarluniadol Rhif 1 – BC(3)32-10(p4a);**

**amserlen ddarluniadol Rhif 2 - BC(3)32-10(p4b).**

**Papur gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth ynghylch cyfeirio Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) a'r amserlen ar ei gyfer - BC(3)32-10(p5)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes amserlen Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru).

4.2 Ymhellach i bryderon Peter Black a Nick Ramsay am mor fyr yw'r amserlen, nododd y Dirprwy Lywydd y dylai'r Llywodraeth anelu at gyflwyno deddfwriaeth i bwyllgorau cyn gynted â phosibl ar ôl datganiad deddfwriaethol y Llywodraeth, a hynny i ganiatàu digon o amser i'r pwyllgor graffu arno o fewn yr amserlen a bennwyd.

4.3 Cytunodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb y dylid rhannu gydag Aelodau ganlyniad ymgynghoriad y Llywodraeth ar egwyddorion y polisi sy'n sail i'r Mesur arfaethedig, ac y dylid gwahodd Aelodau Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 i gyfarfod briffio a gynhelir gan y Llywodraeth am y materion technegol sy'n ymwneud â'r Mesur arfaethedig.

4.4 Cynigiodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, Jane Hutt, fod y Pwyllgor Busnes yn cytuno:

i) i gyfeirio Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) at bwyllgor er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1;

ii) i'r pwyllgor adrodd yn ôl i'r Cynulliad erbyn 21 Ionawr 2011; ac

iii) i drafodion Cyfnod 2 y pwyllgor gael eu cwblhau erbyn 4 Mawrth 2011.

4.5 Gan fod Peter Black a Nick Ramsay wedi gwrthwynebu, cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(ii), mae gan bob aelod o'r pwyllgor un bleidlais am bob aelod o'r grwp gwleidyddol y mae'n ei gynrychioli. Pleidleisiodd yr Aelodau a ganlyn o blaid y cynnig: Jane Hutt (26), Jocelyn Davies (14). Pleidleisiodd yr Aelodau a ganlyn yn erbyn y cynnig: Nick Ramsay (13), Peter Black (5). Cytunwyd ar y cynnig.

4.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 a hynny er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol.

**(ii) Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)**

**Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ynghylch amserlen graffu Cyfnod 1 – BC(3)32-10(p6);**

**Atodiad i'r llythyr: amserlen ddarluniadol ddiwygiedig - BC(3)32-10(p6a)**

4.7 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn cynnig amserlen ddiwygiedig ar gyfer Mesur Arfaethiedig ynghylch Tai (Cymru).

4.8 Cytunodd y Pwyllgor mai 18 Ionawr 2011 fyddai'r dyddiad cau i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 gyflwyno'i adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

4.9 Cytunodd y pwyllgor i ohirio Rheol Sefydlog 23.30 sy'n gofyn am 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio ar ôl dechrau Cyfnod 2, a hynny i ganiatáu i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 gwrdd 10 diwrnod ar ôl dechrau Cyfnod 2. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 23 Chwefror 2011.

## 5. Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog

**Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog: RhS 30 Adroddiadau ar y Trafodion - BC(3)32-10(p7)**

**Atodiad A – Tabl o Newidiadau – BC(3)32-10(p7a)**

**Atodiad B - Rheol Sefydlog Ddiwygiedig - BC(3)32-10(p7b)**

5.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau sy'n ymwneud ag Adroddiadau ar y Trafodion (Rheol Sefydlog 30). Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ar y newidiadau arfaethedig, gyda'r bwriad o'u hystyried ymhellach ym mhumed cyfarfod cyhoeddus y Pwyllgor Busnes ar 7 Rhagfyr.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**